

Diweddariadau o WCVA

02 Gorffennaf 2018

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Rhwydwaith o fudiadau sy'n cynorthwyo'r trydydd sector yng Nghymru yw [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#), ac fe fyddem yn falch iawn o'ch cymorth i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda mudiadau a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau. [Y cwbl y mae angen i chi ei wneud yw ateb yr arolwg byr hwn](#), dim ond ryw 5 munud sydd ei angen arnoch ac fe fydd yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni wella gwasanaethau i'r sector.

Mewn newyddion arall rydym newydd newid ein rhif ffôn yn WCVA i 0300 111 0124; codir cyfradd llinell tir safonol am ffonio'r rhif. Rydym hefyd wedi diwygio'r adran [cysylltu â ni](#) ar ein gwefan i'ch helpu i gysylltu'n uniongyrchol â'n timau a'n haelodau o staff dros y ffôn neu drwy ebost.

Yn olaf, cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Mae Caerdydd rhwng 3 ac 11 Awst 2018. Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae mynediad i'r Maes wedi bod am ddim, ac i ddatlu fe fyddwn yn agor ein drysau i'n haelodau sydd am gynnal digwyddiadau, sgysiau neu ddadleuon drwy gydol yr wythnos. [Ewch ar y wefan i gael gwybod mwy](#). Edrychw'n ymlaen at eich gweld yno!

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli

[Pobl Ifanc fel Ymddiriedolwyr](#)

Mae sawl stori llwyddiant i'w clywed am wirfoddolwyr ifanc sydd wedi symud ymlaen i gael swyddi a gyrfaoedd cyflogedig mewn maes tebyg.

Cyffredinol trydydd sector

[Cefnogi Trydydd Sector Cymru - GDPR a Seiberddiogelwch](#)

Bydd y rownd nesaf o'n Ddigwyddiadau Ymgysylltu yn darparu gwybodaeth ac arweiniad arbenigol i helpu mudiadau trydydd sector i sicrhau bod eu systemau a'u prosesau yn cydymffurfio â'r GDPR newydd.

Cyllid

[Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Ydych chi'n gymwys?](#)

Bydd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ariannu prosiectau o fewn 5 milltir i orsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi penodol. Gwiriwch eich cymhwysedd ar ein map ar-lein.

[Cyfle olaf i ymgeisio i gronfa Arloesi i Arbed](#)

Mae'r gronfa Arloesi i Arbed bellach yn cynnig hyd at £30,000 i brosiectau roi cynnig ar syniadau newydd i wella gwasanaethau cyhoeddus Cymru a chreu arbedion. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisiadau newydd yw 16 Gorffennaf 2018.

Hyfforddiant a digwyddiadau

[Yn dod yn fuan: Cynllun Hyfforddiant Newydd WCVA](#)

Bydd cynllun hyfforddiant newydd WCVA yn parhau i gynnig cyfleoedd dysgu newydd ar bynciau amrywiol, oll wedi'u teilwra ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru

Polisi a gwleidyddiaeth

[Ni ddylid gwneud rhyddhad ardrethi yn "ddewisol"](#)

Ein hymateb i'r ymgynghoriad ar fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru.

[Argymhellion i fynd i'r afael â chyflog isel yn y sector elusennol](#)

Y Living Wage Foundation yn lansio cynllun gweithredu.